WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

# DRAFFT CYFRINACHOL

NI DDYLID EI DDOSBARTHU Y TU ALLAN I SAC

Richard Smith
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth
Lime Grove Avenue
Caerfyrddin
SA31 1SP

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 651A2013 |
| **Dyddiad** | 6 Rhagfyr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **3** |

Annwyl Richard

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch p'un a yw Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed hyd yn hyn, mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant yn unol â'r Mesur, er bod lle i gryfhau ei drefniadau ymhellach**

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Cymeradwyodd a chyhoeddodd yr Awdurdod ei Asesiad o Berfformiad 2012-13 (yr Asesiad) cyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref 2013.
- Mae'r Asesiad yn ystyried perfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut y mae'r Awdurdod wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y mesur.
- Mae'r Asesiad yn gwerthuso llwyddiant yr Awdurdod i gyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn eglur.
- Mae'r Asesiad yn cynnwys manylion am berfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad Strategol a Chraidd Cenedlaethol.
- Mae'r Asesiad yn cynnwys adran sy'n amlinellu'r prif weithgareddau cydweithredol y mae'r Awdurdod yn cymryd rhan ynddynt ac yn benodol fanylion am waith y

Pwyllgor Materion Cenedlaethol a gwaith ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

- Mae'r Awdurdod wedi gwneud ei ddinasyddion yn ymwybodol o fodolaeth yr Asesiad. Gellir cael gafael ar fersiynau Cymraeg a Saesneg yn hawdd ar wefan yr Awdurdod ac mae copïau caled, a fformatau eraill, ar gael ar gais.
- Mae'r asesiad yn nodi'n glir sut y gall pobl gynnig blaenoriaethau gwella newydd.

Mae'n dda nodi bod yr Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ei Asesiad (a godwyd yn fy llythyr dyddiedig 28 Rhagfyr 2012) a'r awgrymiadau i wneud y ddogfen yn haws i'w deall a'i darllen, yn benodol:

- drwy sicrhau bod crynodeb o berfformiad ar gael yn eang;
- tynnu'r meysydd i'w gwella yn 2012-13 o'r pum maes thematig (rheoli risg, rheoli pobl, cydweithio, rheoli adnoddau a rheoli perfformiad) mewn ffordd gliriach;
- cynnwys datganiad clir ar ba mor dda mae'r Awdurdod yn meddwl ei fod wedi cyflawni ym mhob un o'i feysydd gwella thematig;
- defnyddio llai o iaith 'dechnegol' a rhoi esboniadau cliriach sy'n galluogi'r darllenwyr i weld a deall effaith gwelliannau a newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Gallai'r Awdurdod wella ei Asesiad ymhellach drwy wneud y canlynol:

- **Cynnwys data gwirioneddol a ddisgrifir yn yr adran 'sut y gwnaethom fesur llwyddiant':** er y caiff y rhain eu rhestru, ni ddarperir y data. Byddai gwneud hynny, ynghyd â chynnwys rhesymau i egluro pam y defnyddir mesurau penodol a pham eu bod yn briodol i werthuso cynnydd, yn gwella dealltwriaeth y darllenydd.
- **Defnyddio data mwy cymharol:** er bod yr Asesiad yn cynnwys data cymharol yn erbyn dangosyddion Strategol a Chraidd Cenedlaethol Cymru, a thargedau ar gyfer 2013/14, prin yw'r defnydd a wneir o ddata cymharol sy'n dangos perfformiad yn erbyn Awdurdodau Gwella eraill yng Nghymru.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr Awdurdod o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad a chyflwyno adroddiadau'r Awdurdod yn ystod y misoedd nesaf ac yn cyflwyno adroddiad arno, yn ogystal â chrynhoi'r holl waith a wnaed gennyf a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14 mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Awdurdod y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Lisa Williams - Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad